Diolch yn fawr i gwmni CREAD Cyf am noddi cit Pêl-droed newydd Ysgol Brynrefail.
Dyma Stephen Edwards o CREAD yn cyflwyno'r cit i Nidian Huws,Athro Addysg Gorfforol yr ysgol.

CREAD Cyf
Cynhyrchiadau CREAD
6 Stad Wern Gethin, Llanfairpwll, Ynys Môn,
LL61 5AN

Gwenno Griffiths yn cyflwyno bocs i'r apel T4U " Rhowch gariad mewn bocs y Nadolig Eleni'.

Mae'r ysgol yn gobeithio llwyddo i gasglu 300 o focsys eleni.

Mae myfyrwyr bl.12 eleni wedi dechrau ar gymhwyster newydd y Fagloriaeth Gymreig sy'n disgwyl iddynt gwblhau pedair her.

Un o'r heriau yw 'Her y Gymuned' sy'n gofyn i fyfyrwyr dreulio 30 awr  yn hyfforddi yn y gymuned. Yn dilyn sawl cyflwyniad gan aelodau o Uwch Dim Rheoli'r ysgol i'r myfyrwyr penderfynwyd sefydlu system o fentora ffurfiol yn yr ysgol. Myfyrwyr bl.12 eu hunain fydd yn gyfrifol am y cynllun yma - Maent eisoes wedi dechrau ar y gwaith o gefnogi disgyblion gyda'u gwaith Rhifedd a Llythrennedd yn ystod y cyfnodau cofrestru ac, yn fuan, byddent yn cefnogi mewn gwersi hefyd.

Rydym fel ysgol yn edrych ymlaen at weld myfyrwyr bl.12 yn meithrin perthynas gynhaliol gyda'r disgyblion iau tra'n datblygu nifer o sgiliau personol pwysig eu hunain fel effeithiolrwydd personol, cyfathrebu a  hunanhyder. Hefyd, rydym yn bendant y bydd disgyblion iau'r ysgol yn elwa'n fawr o gael y gynhaliaeth werthfawr yma gan eu cyfoedion.